OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 1130

# Rheoliadau Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) 2011

**Darparu ac arddangos gwybodaeth ragnodedig am iechyd**

**7.**—(1) Rhaid i berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul roi i berson, bob tro y mae'r person hwnnw yn ceisio defnyddio neu yn defnyddio gwely haul ar fangre gwelyau haul, yr wybodaeth ragnodedig am iechyd sydd wedi ei gosod yn Atodlen 1, a rhaid cynnwys yr wybodaeth honno mewn dogfen sy'n wastad ac yn betryal ac yn A4 o leiaf o ran maint ac wedi ei hargraffu mewn llythrennau duon, y gellir eu darllen yn rhwydd, ar gefndir melyn.

(2) Rhaid i berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul arddangos mewn man amlwg, lle y mae'n hawdd i berson ei weld bob tro y mae'r person hwnnw yn ceisio defnyddio neu yn defnyddio gwely haul ar fangre gwelyau haul, hysbysiad sydd—

(a) yn cynnwys yr wybodaeth ragnodedig am iechyd sydd wedi ei gosod yn Atodlen 2;

(b) yn A3 o leiaf o ran maint; ac

(c) wedi ei argraffu mewn llythrennau duon, o leiaf 20 milimetr eu maint, ar gefndir melyn.

(3) Bydd hysbysiad wedi ei arddangos mewn man amlwg lle y mae'n hawdd i berson ei weld bob tro y mae'r person hwnnw yn ceisio defnyddio neu yn defnyddio gwely haul ar fangre gwelyau haul os yw wedi ei osod yn y fath fodd ag i ddod i'w olwg ar unwaith wrth iddo fynd i mewn i'r fangre gwelyau haul ac wrth iddo fynd i mewn i bob parth dan gyfyngiad ar y fangre honno.

(4) Rhaid i berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul beidio â darparu nac arddangos unrhyw ddeunydd sy'n cynnwys datganiadau sy'n ymwneud ag effeithiau gwelyau haul ar iechyd ac eithrio'r wybodaeth ragnodedig am iechyd o dan baragraffau (1) a (2).

(5) Ond nid yw paragraff (4) yn gymwys ar gyfer darparu neu arddangos unrhyw wybodaeth berthnasol am iechyd a diogelwch.

(6) Bydd person sy'n rhedeg busnes gwelyau haul ac sy'n methu â chydymffurfio â pharagraff (1), paragraff (2) neu baragraff (4) yn cyflawni tramgwydd.

(7) Mewn achos cyfreithiol am dramgwydd o dan y rheoliad hwn, mae'n amddiffyniad i berson sy'n rhedeg busnes gwelyau haul brofi ei fod ef (neu gyflogai neu asiant iddo) wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r tramgwydd hwnnw.

(8) Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan y rheoliad hwn yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol.